ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF DE-ORLLEWIN CYMRU
CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL
Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 28ain Ionawr 2005, am 10.30am
Yr Ystafell Gynadledda, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathy O'Brien	Uned Strategaeth Wastraff LlCC
Frances Machin	Uned Strategaeth Wastraff LlCC

1. **Ymddiheuriadau**

Philip Marks	CYLCH
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Karin Black	Asiantaeth yr Amgylchedd
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 23ain Tachwedd 2004**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Ond, nodwyd bod cynrychiolwyr LlCC yn anfodlon ar y cofnodion ac yn dymuno pwysleisio nad oedd y geiriad o reidrwydd yn adlewyrchiad 'cytbwys' o'r cyfarfod.

3. **Adendwm y CGRh:**

- **Cynnydd ar y cynigion i gyflawni gofynion y Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel**

Tynnodd GW sylw at yr angen i bob awdurdod adrodd i Fforwm yr Aelodau ym mis Mawrth ar eu cynigion i gyflawni gofynion Rheoliadau Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel (Cymru) 2004 a'r angen am le trin wastraff gweddilliol yng nghyd-destun y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol presennol a Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol unigol.

Adroddodd HB fod SLR Consulting Ltd wedi cael cyfarwyddyd i gysylltu â phob awdurdod yn y rhanbarth i baratoi cyflwyniad ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm yr Aelodau.

Cytunwyd y dylid gofyn i SLR ddosbarthu copi o'r cyflwyniad drafft i'r GTRh erbyn diwedd dydd Llun 21ain Chwefror er mwyn i'r GTRh drafod y goblygiadau yn eu cyfarfod nesaf. **Gweithredu**: HB.

4. Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol

Cyfeiriodd GW at Atodiad C y contract 'Newidiadau ac Eglurhad o'r Dyddiadau Targed'.

Pwysleisiwyd y ffaith ei bod yn ofynnol cwblhau'r Adroddiad Monitro / Datganiad Sefyllfa Cyntaf a chytuno ar Feini Prawf Drafft ar gyfer Lleoliad Gwastraff Peryglus erbyn 31ain Mawrth 2005 ar gyfer ymgynghori. Mae angen adolygu'r CGRh ar frys mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwastraff peryglus mewn ymgynghoriad â'r Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol eraill.

Gweithredu: GW / CM i gysylltu â De-ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru i gytuno ar Feini Prawf Drafft ar gyfer Lleoliadau a chyflwyno'r rhain yn y cyfarfod Cyswllt Cymru Gyfan nesaf.

O ran yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae'n bwysig cynnwys yr holl ddata sydd ar gael. Nodwyd bod Rhanbarth y De-ddwyrain wedi paratoi methodoleg ar gyfer sefydlu 'Gallu Cyfleusterau Presennol'. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon a dylid trafod hyn yn y cyfarfod Cyswllt Cymru Gyfan nesaf.

Derbyniwyd ei bod yn anochel y bydd yr amserlen ddiwygiedig yn newid.

5. Ymchwil Mapio GIS: Adroddiad Cynnydd gan LCC

Adroddodd SM ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran Ymchwil Mapio GIS.

Cadarnhawyd na fyddai tîm GIS LlCC sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth yn ymgymryd â'r ymchwil. Cwblhawyd 'manyleb y prosiect' a dosbarthwyd gwahoddiadau i gyflwyno tendr. Y gobaith yw y bydd y cyflwyniadau / cyfweliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 21ain Chwefror.

Bwriedir dechrau'r ymchwil ar y cyfle cyntaf ar ôl cwblhau'r broses ddethol.

6. Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2005: Y Goblygiadau ar gyfer Cynllunwyr

Rhoddodd CO grynodeb byr o oblygiadau Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2005. O ganlyniad i'r Rheoliadau newydd:

- bydd statws gwastraff amaethyddol a chloddio / chwarelu yn newid;
- bydd cynnydd o ran swm y gwastraff 'rheoledig' (h.y. byddai deunyddiau annaturiol bellach yn wastraff rheoledig); ac
- ni fyddai unrhyw effaith go iawn o ran materion sy'n ymwneud â chynllunio.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 11.00am ar ddydd Iau 24ain Chwefror.

8. Unrhyw fater arall

Cyfeiriodd GW at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Andrew Emery – Cydymaith Ymchwil sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Ymchwil Gwastraff ac Adnoddau Cymru, yn gofyn am fod yn aelod o'r GTRh. **Cytunwyd** y byddai'n ddefnyddiol cael unrhyw gymorth technegol sydd ar gael ond dylid eu heithrio rhag manteisio ar unrhyw gontract ymchwil a ddaw yn sgîl gwaith y GTRh. **Gweithredu**: GW

i ymateb ar y sail hon.

Pwysleisiodd SM y dylid gwneud ymdrech bellach i gynnwys y Diwydiant yn y broses. **Gweithredu**: CO i ddarparu cysylltiadau ar gyfer y CBI a'r Siambr Fasnach. CM i gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd.

Cynlluniau Datblygu Lleol: Adroddodd SM er y bydd y CDLl yn darparu cynllun a resymolwyd, bydd angen parhau i ddelio â materion gwastraff yn drylwyr.